



Learning Disability Wales  
Anabledd Dysgu Cymru

# Pecyn swydd

Am Anabledd Dysgu Cymru



Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn,  
person ifanc ac oedolyn gydag anabledd dysgu



# Cynnwys

Neges gan ein Cadeirydd a'n Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro	4
Am Anabledd Dysgu Cymru	6
Ein Prosiectau, Partneriaid Prosiectau a Chyllidwyr	8
Ein tîm staff	11
Sut i wneud cais	12

# Neges gan ein Cadeirydd a'n Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

## Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd Prif Swyddog Gweithredol.

Mae'n gyfnod arwyddocaol i bobl gydag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae yna alw cynyddol am wasanaethau a chefnogaeth, deddfwriaeth bwysig newydd a phwysau ariannol parhaus ar awdurdodau cyhoeddus.

Rydym yn cael ein cydnabod fel llais cyfunol anabledd dysgu yng Nghymru, yn dwyn ynghyd barn pobl gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth eu hunain, gofalwyr teulu a darparwyr gwasanaethau.

Ein hymrwymiad sylfaenol ydy cefnogi pobl gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i fyw bywyd gwerthfawr.

Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd yn cynnwys, ac yn arbennig:

- gwrando a dysgu oddi wrth ein haelodau
- lobio a chyfrannu at bolisi
- lledaenu arfer gorau
- arloesi gyda phrosiectau mewn partneriaeth gydag eraill.

Rydym yn gobeithio bod gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n tîm staff bychan, cryf a chydgefnogol sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



**Phil Madden**  
Cadeirydd, Anabledd Dysgu  
Cymru



**Zoe Richards**  
Prif Swyddog Gweithredol Dros  
Dro, Anabledd Dysgu Cymru

## Ein cenhadaeth ydy:

Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn, person ifanc ac oedolyn gydag anabledd dysgu.



## Ein nodau ydy:

- Cryfhau llais, hawliau a statws plant a phobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth
- Cefnogi rhieni a gofalwyr teulu
- Hyrwyddo gwasanaethau wedi'u canoli ar yr unigolyn.

# Am Anabledd Dysgu Cymru

**Ffurfiwyd Anabledd Dysgu Cymru ym 1983. Rydym yn elusen genedlaethol, yn gydnabyddedig fel llais cyfunol anabledd dysgu yng Nghymru, yn dwyn pobl gydag anableddau dysgu eu hunain, gofalwyr teulu a darparwyr trydydd sector at ei gilydd.**

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag amrediad eang o awdurdodau cyhoeddus, asiantaethau a darparwyr trydydd sector.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag amrediad eang o awdurdodau

cyhoeddus, asiantaethau a chyrff anllywodraethol eraill.

## Ein cenhadaeth ydy:

*‘Creu Cymru sydd yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pob plentyn, person ifanc ac oedolyn gydag anabledd dysgu’.*

## Ein Gwerthoedd

**Ffurfiwyd ein ‘Datganiad o Hawliau a Gwerthoedd Allweddol’ i blant, pobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu, gan farn ein haelodau.**

Yn gryno mae'r datganiad yn dweud:

*Credwn fod gennych fel plentyn, person ifanc neu oedolyn gydag anabledd dysgu yr hawl i:*

- Cael eich gwerthfawrogi a'ch parchu.
- Cael gwasanaethau a chefnogaeth i fyw bywyd ystyrlon.
- Addysg a hyfforddiant.
- Cael eich gweld, eich clywed a'ch hysbysu o'r hyn sy'n digwydd.
- Cynllunio eich bywyd eich hun wrth i chi dyfu.
- Cyfeillgarwch, perthnasoedd a bywyd cymdeithasol da.
- Cyflogaeth.

Mae ein datganiad yn adlewyrchu ymrwymiad Anabledd Dysgu Cymru i weithrediad llawn deddfwriaeth a pholisi Cymru a DU gyfan, oddi mewn i fframwaith Strategaeth Cymru Gyfan a'r hollgyffredinol:

- *Cytundeb a Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

a

- *Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau gydag Anableddau a Chytundebau Ewropeaidd cysylltiedig eraill.*

## Ein nodau ydy:

- *Cryfhau llais, hawliau a statws plant a phobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth.*
- *Cefnogi rhieni a gofalwyr teulu.*
- *Hyrwyddo gwasanaethau wedi'u canoli ar yr unigolyn.*



# Ein prosiectau, partneriaid prosiectau a chyllidwyr

## Bywyd Gwerthfawr

Mae'r prosiect Bywyd Gwerthfawr, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu amrediad o weithgareddau cyflenwol i lywio, hyfforddi, arloesi, cynrychioli a herio.



## Engage to Change

Mae Engage to Change yn gweithio gyda 800 o gyflogwyr i helpu 1,000 o bobl ifanc gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth i ddatblygu eu sgiliau cyflogaeth drwy leoliadau gwaith cyflogedig. Mae wedi cael ei gyllido gan Cronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru.



## Love Life

Mae'r prosiect yma, a gyllidir gan raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd, yn datblygu rhaglen hyfforddi ar berthnasoedd a rhywioldeb wedi'i hanelu at gefnogi staff a gofalwyr teulu ar draws Ewrop, dan arweiniad hyfforddwyr gydag anabledd dysgu.



Funded by the  
Erasmus+ Programme  
of the European Union



## Gweithio ar y cyd gyda rhieni

Prosiect yn gweithio i wella'r gefnogaeth i deuluoedd lle mae gan un neu'r ddau riant anabledd dysgu. Wedi'i gyllido gan Sefydliad Esmée Fairbairn.



Working Together with Parents Network  
Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd â Rhieni




## Ffrindiau Gigiau

Mae Ffrindiau Gigiau, sydd yn cael ei gyllido gan First Choice Housing, yn cynllun bod yn ffrind sydd yn cydweddu pobl gydag anabledd dysgu ac/ neu awtistiaeth yng Nghaerdydd gyda gwirfoddolwyr sydd yn rhannu'r un diddordebau, fel eu bod nhw'n gallu mynd gyda'i gilydd i gigiau a digwyddiadau.





# Ein tîm staff



## Sut i wneud cais

Mae'r pecyn cais ar gael ar ein gwefan ar [www.adcymru.org.uk](http://www.adcymru.org.uk).

E-bostiwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau at: [enquiries@ldw.org.uk](mailto:enquiries@ldw.org.uk).  
Labelwch bwnc eich e-bost fel 'Recriwtio'.

Dyma ein dull dewisol o wneud cais.

Os yw'n well gennych bostio eich cais, yna anfonwch os gwelwch yn dda at:

Recriwtio  
Rheolwraig Adnoddau Dynol a Llywodraethiant  
Anabledd Dysgu Cymru  
41 Lambourne Crescent  
Llanisien  
Caerdydd  
CF14 5GG

Os hoffech drafod y swyddi yn fwy manwl e-bostiwch Zoe Richards,  
Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Anabledd Dysgu Cymru:  
[zoe.richards@ldw.org.uk](mailto:zoe.richards@ldw.org.uk).

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl sydd yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol.